

Y drychineb eithaf

“Oherwydd y mae ef wedi dirymu marwolaeth, a dod â bywyd ac anfarwoldeb i'r golau trwy'r Efengyl. (adn. 10)

Beth am ddarllen 2 Timotheus 1:1–12 ac yna myfyrio

Bu i ni gyffwrdd ddoe â'r gwirionedd fod Duw wedi rhoi tragwyddoldeb yn ein calonnau ac ni ddylem synnu pan fo pobl yn siarad hefo ni am eu hiraeth am anfarwoldeb. Ni ddylem synnu pan fo pobl yn siarad fel petaent yn ddieithriaid yn y byd hwn. Fel y dywedais, mae pawb yn teimlo hyn, ond nid yw pawb yn deall hyn. Mae'r rhai hynny sydd â thuedd athronyddol ynddynt yn cael gafael yn y ffaith yma yn haws na'r rhai sydd yn byw am bleser y funud. Un oedd â meddwl effro iawn oedd Malcolm Muggeridge, ac yn ei lyfr *Jesus Rediscovered* mae'n dweud ei fod o bryd i'w gilydd, pan oedd yn blentyn, yn ymwybodol ei fod fel dieithryn yn y byd, a bod yna fyd arall y tu hwnt i hwn. Teimlai ei fod yn symud tuag ato. Fel hyn yr ysgrifennodd:

“Rwy'n ymdrechu, er mwyn clywed y gerddoriaeth o bell. Mae fy llygaid yn hiraethu am weld y golau sydd ar y gorwel. Yr unig drychineb eithafol a all ein gorchfygu yn y byd hwn yw teimlo yn rhy gartrefol yma. Tra ydym eto yn ddieithriaid a phererinion, ni allwn anghofio ein gwir gartref.”

Mae'r neges Gristnogol yn gwneud yr hiraeth yma am anfarwoldeb, newyn yr enaid am gartref, yn glir i ni. Dyna pam mai dim ond y rhai sydd â'u calonnau wedi eu goleuo gan yr Efengyl sydd yn deall yr hiraeth yma am gartref yn iawn. Nid yw'r rhan fwyaf o ddyinion a gwragedd yn y byd yma yn gwybod beth sydd o'i le yn eu bywyd. Maent yn ymwybodol o'r adegau hynny pan nad yw cwmni neb yn ddigon. Maent yn edrych ar y sêr, edrych ar y byd, edrych hyd yn oed ar farwolaeth, yn disgwyl deall a dirnad eu bywyd. Maent yn ymwybodol fod yna hiraeth am ryw beth, ond beth? Dylem fod yn ddiolchgar fod yr hyn y mae ein henaid yn hiraethu amdano wedi ei egluro i ni drwy yr Efengyl.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 14:1–7; Heb. 11:16; Phil. 3:20

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd prif ffocws enwogion y ffydd?
2. Beth ddylai fod prif ffocws ein bywyd ni?

Gweddi

O Dad, diolch am egluro i mi y rheswm dros yr hiraeth sydd yn fy nghalon. Mae dyfnder fy enaid yn galw ar y dyfnder sydd ynot ti. Ni fuaswn byth wedi deall beth oedd achos yr hiraeth, oni bai i ti ddod ataf i yn Iesu Grist. Rwyf am ddiolch i ti am byth. Amen.